



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Mawrth 2017 am 6.00yh
yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 March 2017 at 6.00pm
at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

Presennol/Present—**Y Cyngorwyr/Councillors** Richard Jones (**yn y gadair/in the chair**),
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Graham Evans, Melfydd George, Gwynfi Jenkins,
Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

- 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**
The Chair's Welcome and Personal Matters.

Yn absenoldeb anorfod y Maer, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng. Richard Jones. Croesawodd ef bawb i'r cyfarfod.

In the unavoidable absence of the Mayor, the meeting was chaired by the Deputy Mayor, Cllr Richard Jones, who welcomed all to the meeting.

- 2. Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng. / Cllrs Clive Davies (*materion teuluol/family matters*), Ken Edwards (*gwaith/work commitments*)
- 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.**
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.</i>
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	<i>Ceisiadau cynllunio / Planning applications A170123/4/5/6</i>

- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 7 Chwefror.**
Confirmation of Minutes of 7 February Council Meeting.
Cynigiwyd gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cofnodion yn gywir.
Cllr Jane Roche proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr. Dai Brabrook.

- 5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**
Tud. 1205, eitem 1: Dywedodd y Cyng. Jane Roche nad oedd newyddion am Noson Cyflwyno Gwobrau'r Ieuentid wedi ei gynnwys yn y "Tivy-Side" er ei bod wedi siarad droeon gyda golygydd y papur. Mae'n debyg nad oes olynnydd wedi ei benodi eto i ddilyn Ms Enfys Bosworth yn y swydd.

Tud. 1207, eitem 10(a)(i): Yn dilyn y cyfarfod ynghylch ailstrwythuro'r ffiniau etholiadol, dywedodd y Cyng. Adams-Lewis y byddai tref Aberteifi yn dal i gynnal tri chynghorydd gyda'r argymhelliad am ystyried dod ag ardaloedd Gwbert a Ferwig i mewn i etholaeth ddinesig Aberteifi.

Tud. 1210, eitem 11[257]: Dywedodd y Cyng. Richard Jones y byddai'r arian tuag at y toiledau yn cael ei ddefnyddio i osod drws newydd o wneuthuriad dur yn dilyn y fandaliaeth i gyfleustra Lôn y Moch.

Page 1205, item 1: Cllr Jane Roche announced her disappointment that the news of the Youth Presentation Evening had not been included in recent issues of the "Tivy-Side". The vacancy for the departure of Ms Enfys Bosworth has not been appointed.

Page 1207, item 10(a)(i): Following the meeting to discuss the restructuring of election boundaries, Cllr Adams-Lewis started that Cardigan town would retain three members on the county council with the possible recommendation that the Ferwig and Gwbert areas would be incorporated within the town's civic boundary.

Page 1210, item [257]: Cllr Richard Jones stated that the money contributed towards the public conveniences would be used to purchase a new steel door to combat the vandalism experienced at Chancery Lane facility.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer i'r holl aelodau yn y cyfarfod.

The Mayor's diary was distributed to all members at the meeting.

7. Cynllunio / Planning.

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Observations
A170123 & A170124 (Conservation Area Consent)	The Elms, Priory Street	<i>Dymchwel stôr adfeiliedig ac ystafell amlbwrpas, ac estyniad cefn i'r adeilad presennol, newid mewnlol (6 uned ychwanegol) a gwaith cysylltiedig.</i> Demolition of derelict store and utility room, and extension to the existing building at rear; internal alteration (additional 6 units) and associated works.	Land Registry issues regarding the encroachment of boundaries is contested by neighbours. The historic access to Greystones adjacent to the Elms from Priory Street needs clarification. In principle, the council supports the development of building in this area of land but recommends that materials should conform with similar buildings within the conservation area.
A170125 & A170126 (Conservation Area Consent)	The Elms, Priory Street	<i>Estyniad i'r annedd segur, newidiadau mewnlol i greu 4 uned a gwaith cysylltiedig.</i> Extension to existing redundant dwelling; internal alteration to create 4 units and associated works.	Concern is expressed at the size of the development and its scale – the number of units will certainly impact on the parking problems in the vicinity of the Pwllhai lane.

Mae tri llythyr o wrthwynebiad i'r ceisiadau wedi eu derbyn oddi wrth y canlynol /

Three letters of objection to the applications received from the following:

Evans Family, Briscwm Farm, Cardigan
4CG Cymdeithas Cynnal/Cefnogi Cefn Gwlad
Priory Vets, Cardigan

Mynychwyd y cyfarfod gan aelod o'r cyhoedd.

A member of the public was in attendance at the meeting.

8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Sic Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/2/17	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor/ Rent of Council Office (Chwefror / February).	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (7, 21 Chwefror / February)	A9	4364	£50.00 (0.00)
	Band Lydan (Mawrth) / Broadband (March)	A20		£20.00 (0.00)
28/2/17	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Chwef./Feb.)	A3	4365	£748.90 (0.00)
16/2/17	Llinos Jones: Cyfieithu ar y pryd. Simultaneous translation (7/2/17)	A18	4366	£63.30 (0.00)
15/2/17	Courtstall Services Ltd.: Ailbeintio llinellau'r cyrtau tenis. Repainting of tennis court lines – 40% deposit required	C3	4367	£288.00 (48.00)
1/2/17	Midshire: Llungopio / Photocopying	A7	4368	£6.98 (1.16)

2/2/17	Caffi Sgwâr Finch Square Café: <i>Stampiau / Stamps</i>	A6	4369	£69.84 (0.00)
28/2/17	<i>Bachan Deche / Handyperson: (Chwefror/February)</i>	A19	4370	£118.80 (19.80)

Cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George.

Clr Mark Cole proposed that the above bills be paid; this was seconded by Clr Melfydd George.

Derbyniadau/Receipts:

9/1/17	<i>Llog y Banc / Bank interest</i>	£1.88
22/2/17	<i>Cronfa'r Maer/Mayor's Fund: 4CG Bore Coffi/Coffee Morning</i>	£400.00
3/3/17	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council: Grant: Pentop</i>	£4,004.00

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Yn dilyn cyfarfod gyda Mr Jon Hadlow, swyddog Meysydd a Gerddi'r cyngor sir, cytunwyd y byddai'r blodau gwyllt yn cael eu plannu ar hyd Rhodfa'r Felin ac ardal Netpwl ar ddydd Sadwrn, 25 Mawrth rhwng 10.00yb a 3.00yp.
- (ii) Cynhelir cyfarfod PACT nesaf ddydd Mercher, 8 Mawrth yn swyddfa'r heddlu am 2.00yp. Ymddiheurodd y Cyng. Adams-Lewis am ei anallu i fynychu'r cyfarfod.
- (iii) Cwrt Priordy: Mae'r problemau gyda'r sbwriel yno yn parhau. Cytunwyd mai cyfrifoldeb y cyngor sir yw cynnal a chadw'r ffens o amgylch ac i glirio'r sbwriel.

(b) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) Dywedodd y Cyng. Cole bod y cyngor sir yn gwyntyllu'r syniad i werthu safle Canolfan Meugan ar y farchnad agored gyda'r bwriad o gyflwyno canllawiau am hynny i'r Cabinet ar 14 Mawrth. Mynegodd y Cyng. Cole ei wrthwynebiad a bydd yn brwydro yn erbyn unrhyw awgrym i werthu'r safle.

(c) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod argymhelliad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet i awdurdodi cyflwyno cais i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y prosiect PARRC (Chwarae a Hamdden yng Nghefn Gwlad Ceredigion) er budd y Parc Sgrialu yn Aberteifi.

(a) Clr Catrin Miles:

- (i) Following a meeting with Mr Jon Hadlow, CCC officer with responsibility for parks and gardens, it was agreed to plant the wild flowers at Rhodfa'r Felin and the Netpool area on Saturday, 25 March between 10.00am and 3.00pm.
- (ii) The next PACT meeting will be held on Wednesday, 8 March at the police station at 2.00pm. Clr John Adams-Lewis registered his apology from attending the meeting.
- (iii) Priory Court: The problem regarding litter in this area is continuing. It was agreed that the county council has responsibility for the fence and clearing the litter, etc.

(b) Clr Mark Cole:

- (i) Clr Cole stated that Ceredigion County Council is seeking once more to sell the site of the original Canolfan Meugan on the open market with a view of doing so in the forthcoming Cabinet meeting on 14 March. Clr Cole stated that he remained opposed to this option and will state his objections if this recommendation is made next week.

(c) Clr John Adams-Lewis:

- (i) Clr Adams-Lewis stated that a report has been submitted to the county council Cabinet seeking its approval to submit a full bid for European funding to improve play provision in Ceredigion under the title PARRC (Play and Recreation in Rural Ceredigion). Hopefully, the beneficiary will be the Skateboard Park in Cardigan.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
261	CSC / CCC (Dana Jones): <i>Nodiadau o'r Cyfarfod Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 23/11/16.</i> Notes of the Consultative Meeting held on 23/11/16.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members, 21/2/17
262	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday parade, 29/4/17, 13/30-16.30 – 11.30-12.00 14/4/17.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members.
263	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Greenfield Square, 13/2/17-15/2/17. Cau ar frys oherwydd bod nwy yn dianc.</i> Emergency closure due to gas leak – Wales & West Utilities.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members.
264	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Feidrfair, 20/2/17-24/2/17, 6.00pm-12.00mn. Arwynebu / Resurfacing</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members. <i>Llongyfarchwyd y gweithwyr am y gwaith da a diffwdan a gyflawnwyd mewn byr amser.</i> Workers were commended for the excellent work to improve the Feidrfair road surface in good time.
265	CSC / CCC (William Moore): <i>Gwybodaeth y bydd taliad cyntaf o'r praesept i'w dalu i'r banc erbyn 30/4/17.</i> Notification that the first instalment of the precept (£55,996.98) will be made to the bank by 30/4/17.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
266	CSC / CCC (Osian Jones): <i>Diweddariad o gynllun mabwysiadu llwybrau.</i> Update of the adopt a path scheme	<i>Nodwyd.</i> Noted.
267	CSC / CCC (Paul Arnold): <i>Ymateb i lythyr y cyngor yn mynegi pryderon am yr anallu i orffen y llwybr troed i Benparc.</i> Response to the council letter referring to the non-completion of the footpath to Penparc.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
268	CSC / CCC (Gwasanaethau Cyllid): <i>Gwybodaeth bod grant i'w dalu / Remittance of grant payment: Cae Chwarae Pentop Playing Field = £4,004</i>	<i>Diolchwyd i'r Cyng. Catrin Miles am ei gwaith i gwblhau'r dogfenni am grant.</i> Cllr Catrin Miles was thanked for the arduous work to secure the grant.
269	Mark Williams AS/MP: <i>Llythyr yn llongyfarch Partneriaeth Canol Tref Aberteifi.</i> Letter of congratulations on the success of the Cardigan Town Centre Partnership on receiving the "Special Recognition" commendation as part of the Great British Street Awards.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
270	Department of Communities and Local Government: <i>Llythyr oddi wrth yr adran am y llwyddiant uchod.</i> A letter from Andrew Percy MP (Chair) on the success of the above-mentioned achievement.	<i>Gwyntyllwyd y ffaith nad oedd y Maer, a fu'n allweddol i lwyddiant y fenter, wedi ei gynnwys yn lluniau'r wasg.</i> <i>Llongyfarchwyd ef ar ei ymddangosiad ar raglen "Prynhawn Da" S4C.</i> The disappointment of members was recorded that the Mayor, who had been an industrious participant in the success of the venture, was not included in the press photographs. The Mayor was congratulated on his appearance on the S4C programme "Prynhawn Da" when the success of the Cardigan High Street was aired.
271	Elin Jones AC/AM: <i>Cydnabyddiaeth o'r llythyr at Ken Skates yn mynegi pryderon y cyngor am anallu y Llywodraeth i orffen y llwybr troed i bentref Penparc.</i> Acknowledgment of the letter forwarded by the council to Ken Skates regarding concerns at the failure of the Government to complete the pathway to Penparc.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
272	Mr Ceri Adams-Lewis (Ysgrifennydd/Secretary of the Advisory Committee of King George 5 th Playing Field): <i>Yn mynegi pryderon am gostau symud y pyst gôl.</i> Further clarification is required regarding the storing of football goalposts on the field.	<i>Cytunwyd bod y ddirprwyaeth wreiddiol yn cyfarfod eto gyda chynrychiolwyr y Pwyllgor Ymgynghorol a swyddogion Clwb Pêl-droed Aberteifi.</i> It was agreed that the delegation originally formed would again discuss the issue with members of the Advisory Committee and Cardigan Football Club.
273	Cylch Cinio Teifi: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Oedfa Gŵyl Ddewi yng Nghapel Mair ar 5/3/17, 6.00yh.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the St David's Day service at Capel Mair.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.

274	Ann Stokoe (<i>Rheolwraig Prosiect Cymuned Digidol Aberteifi</i> /Project Manager, Digital Community Cardigan): <i>Angen Gwybodaeth</i> . Information required regarding the ownership of lampposts, etc.	<i>Cynghorwyd Mrs Stokoe i gysylltu â Mr Simon Bray, swyddog goleuadau strydoedd y cyngor sir.</i> Mrs Stokoe is advised to contact Mr Simon Bray, street light officer with the county council.
275	<i>Canolfan Therapi Plant</i> Bobath Cymru Children's Therapy Centre: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
276	Cymdeithas Gofal / The Care Society: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
277	Gŵyl Fawr Aberteifi: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
278	<i>Gofal Mewn Galar</i> / Cruse Bereavement Care: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
279	Mount Zion Baptist Church Youth Drop-in Centre: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
280	Gŵyl y Cynhaeaf: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
281	Cardigan Classic Car Club: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
282	Cyngor Tref Aberystwyth Town Council: <i>Dyddiadau'r achlysuron dinesig</i> . Notification of Mayor Installation (2/6/17) and Mayoral Service (4/6/17).	<i>Nodwyd.</i> Noted.
283	<i>Uchel Siryf Dyfed</i> / The High Sheriff of Dyfed: <i>Gwahoddiad i'r Maer</i> / Invitation to the Mayor to the Declaration of Office at Cardigan Castle, 12/4/17, 11/15am.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has accepted the invitation.
284	<i>Comisiwn Ffiniau i Gymru: Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Ail Gyfnod Ymgynghori.</i> Boundary Commission for Wales: The 2018 Review of Parliamentary Constituencies in Wales – Secondary Consultation Period from 28 February to 27 March	<i>Nodwyd.</i> Noted.
285	<i>Adroddiad y Bachan Deche, mis Chwefror.</i> Handyperson's Report, February	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.
286	Williams & Davies: <i>Llythyr yn ymwneud â phrydles Clwb Bowls Aberteifi.</i> Letter pertaining to the Cardigan Bowls Club lease.	<i>Mae copïau wedi eu trosglwyddo i'r Cynghorwyr Clive Davies, John Adams-Lewis, Catrin Miles a Graham Evans.</i> The above-named councillors have been furnished with copies.
287	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Etholiadau Lleol – Cynhelir sesiynau briffio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, 9/3/17, Theatr Felinfach, 5.30yh.</i> Local Elections – An initial briefing for prospective candidates and agents will be held on 9/3/17 at 5.30pm at Theatr Felinfach	<i>Bydd y sesiwn yn amlinellu'r hyn sy'n gysylltiedig â'r broses enwebu gan roi gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r ymgeiswyr a'r asiantiaid.</i> The session will outline what is involved in the nomination process, the roles and responsibilities of candidates and agents, eligibility to stand for elections, the election campaign attending electoral proceedings and answer any questions.
288	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Copi'r ffurflen gais am grant o'r Gronfa Loteri Fawr i'r maes sgrialu.</i> Copy of the application form for a grant from the Big Lottery Fund for the Skateboard Park.	<i>Nodwyd.</i> Noted. <i>Mae copi ar gael yn swyddfa'r clerc.</i> A copy is available at the clerk's office.
289	<i>Archwilydd Cyffredinol Cymru: Dogfenni i gwblhau cyfrifon 2016-17.</i> Auditor General for Wales: Documents to complete accounts audit for 206-17.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
290	Opera Teifi: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
291	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Cau'r ffordd</i> / Road closure: Pwllhai, 20/3/17-24/3/17, <i>Adnewyddu pibell draen yn y ffordd</i> / Replacing road drain pipe.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members, 7/3/17.

Ann Jones:	<i>Adain Cau Ffyrdd</i> / Road Closure Section
Bronwen Morgan:	<i>Prif Weithredwr.</i> Chief Executive.
Cathryn Morgan:	<i>Cydllynydd Teuluoedd yn Gyntaf</i> / Families First Coordinator
Dana Jones:	<i>Swyddog Gwasanaethau Democratiaid a Safonau</i> / Democratic Services and Standards Officer
Marianne De Vries:	<i>Adain Cau Ffyrdd</i> / Road Closures Section
Osian Jones:	<i>Swyddog Mynediad Cymunedol</i> / Community Access Officer
Paul Arnold:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol</i>
William Moore:	<i>Adain Cyfrifeg</i> / Accountancy Section

11. (a) **Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2017-18.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Akira Shimazaki ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y Dirprwy-Faer, y Cyng. Richard Jones, i'w ethol yn Faer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2017-18. Roedd y cyngor yn unfrydol.
- (b) **Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2017-18.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George bod y Cyng. John Adams-Lewis i'w ethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2017-18. Roedd y cyngor yn unfrydol.
- (a) Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2017-18.
It was proposed by Cllr Akira Shimazaki and seconded by Cllr Jane Roche that the Deputy Mayor, Cllr Richard Jones be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2017-18. Members were unanimous in their decision.
- (b) Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2017-18.
Cllr Graham Evans proposed that Cllr John Adams-Lewis be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2017-18. This was seconded by Cllr Melfydd George. Members were unanimous in their decision.
12. **Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 21 Chwefror.
Confirmation of 21 February Sub-committee Minutes.
Cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod cofnodion 21 Chwefror yn rhai cywir; eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis.
Cllr Mark Cole proposed that the minutes of 21 February be accepted as correct; seconded by Cllr John Adams-Lewis.
Materion yn codi Matters arising:
Tud. 1212 (*Man Chwarae Maesglas*): Cytunwyd â'r argymhelliad bod y cyngor yn trefnu cyfarfod gyda chwmni Tai Ceredigion Cyf. i drafod dyfodol y safle. Bwriedir gosod y canlynol ar yr agenda: dychwelyd y cyfarpar chwarae, datrys problemau'r llifogydd, prydles hir-dymor (rhent-rhad), caniatáu mynediad i gwmnïau'r gwasanaethau cyhoeddus, a chyflwyno canllawiau gorfodol, llym ynglŷn â chynlluniau'r byngalo i'r anabl.
Tud. 1213 (*Netpwl*): Cytunwyd gyda'r argymhellion a anfonwyd ymlaen at Ms Cathryn Morgan. Dywedodd y Cyng. Jane Roche bod y cyngor sir yn paratoi'r tir i blannu coed yn ardal y Netpwl ar ddydd Sul, 19 Mawrth gyda chymorth yr ACF a Ffrindiau Netpwl. Bydd gweddill y coed yn cael eu plannu ar gyrion y Maes Sgrialu. Awgrymwyd gosod lluniau'r digwyddiad ar y safle we.
Tud. 1214 (*Blodau a Phlanhigion*): Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y Cyngor yn derbyn argymhelliad y Bachan Deche i osod glaswellt dros dri o'r wyth gwely blodau yng Ngerddi Victoria a phlannu llwyni a blodau lluosflwydd mewn dau arall a bylbiau cennin pedr ynddynt yn yr hydref am gost y flwyddyn gyntaf o £3,974.00. Oherwydd y gwaith gwreiddiol, bydd y pris yn lleihau dros y blynyddoedd dilynol.
Tud. 1214 (*Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed*): Cytunwyd bod y ddirprwyaeth wreiddiol yn cyfarfod eto gyda chynrychiolwyr y Pwyllgor Ymgynghorol a swyddogion Clwb Pêl-droed Aberteifi i drafod y man a'r lle i osod y pyst.
Tud. 1214 (*Ymgynghoriad Map Rhwydwaith Integredig*): Cytunwyd gyda'r argymhellion ag eithrio eitem (c) a ddylai ddarllen: "...o stad Brynonnen hyd y fynedfa i Benrodyn."
Tud. 1215 (*Unrhyw Fater Arall*): Disgwylir llythyr o gadarnhad oddi wrth Mrs Sue Lewis ynghylch yr arddangosfa a gynhelir yn y Castell o 24 Ebrill am bythefnos pryd yr arddangosir asedau'r Cyngor. Mae materion diogelwch yn orbwysig. Cynhelir Diwrnod Sioraidd ar 1 Mai. Gofynnodd y Cyng. Adams-Lewis i'r Castell sicrhau bod y Ddraig Goch yn cyhwfan ynddo yn barhaol.
Menter Aberteifi: Dywedodd y Cyng. Jane Roche bod gwaith mawr i'w wneud ar adeilad Neuadd y Dref ac y bydd yn brosiect hir-dymor. Daeth cais o bwyllgor Sioe Amaethyddol Aberteifi i arddangos cwpanau'r sioe yn Ystafell Radley. Mae gwaith aildiwnio'r piano yn y Neuadd Fawr wedi ei gwblhau.
Ysgol Uwchradd Aberteifi: Mae pwyllgor craffu'r cyngor sir wedi archwilio'r adeiladau ac yn awgrymu bod gwaith sylweddol i'w wneud ar yr adeiladau.

Pwll Nofio Aberteifi: Mae gwirfoddolwyr yn cynorthwyo gyda gwaith gweinyddol ar hyn o bryd a gwelir cynnydd yn nifer y dosbarthiadau a gynigir.

Cymdeithas Aberteifi Society: Cynhelir y cyfarfod blynyddol ar 29 Mawrth yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr am 7.30yh.

Page 1212 (*Maesglas Play Area*): It was agreed with the recommendation to arrange a meeting with Tai Ceredigion Cyf. to discuss the future of the play area. The return of the play equipment, addressing flooding problems, the long-term lease of the land (preferably with a peppercorn rent), accommodating the utilities and strict criteria regarding the plans of the disabled bungalow all to be placed on the agenda.

Page 1213 (*Netpool*): It was agreed with the recommendations forwarded to Ms Cathryn Morgan. Cllr Jane Roche noted that the trees would be planted on Sunday, 19 March by the county council with assistance from the Army Cadet Force and the Friends of Netpool. The remainder of the trees would be planted on the perimeter of the Skateboard Park. It was suggested to post photographs of the event on the council website.

Page 1214 (*Flowers and Plants*): Cllr Mark Cole proposed and Cllr Dai Brabrook seconded that the council accepts the recommendation of the Handyperson that three of the eight Victoria Gardens flower beds could be turfed and two beds planted with perennial flowers and shrubs and also daffodil bulbs in the autumn. The cost for the initial year would be £3,974.00. Due to the planting of the shrubs and perennials, the cost would be reduced for succeeding years.

Page 1214 (*King George 5th Playing Field*): It was agreed that the delegation originally formed would again discuss the issue with members of the Advisory Committee and Cardigan Football Club.

Page 1214 (*Integrated Network Map Consultation*): It was agreed with the recommendations as noted with the amendment to item (c) which should read "...from the Brynonnen estate to the entrance to Penrodyn."

Tud. 1215 (*Any Other Business*): Confirmation is expected from Mrs Sue Lewis regarding the display of council memorabilia to be held at the Castle from 28 April for two weeks. Assurance is required regarding the security and thermal conditions in which the council assets will be displayed. A Georgian Day is to be held on 1 May. Cllr Adams-Lewis requested that the Red Dragon banner be permanently displayed on the Castle.

Menter Aberteifi: Cllr Roche reported that the structural work on the Guildhall building is quite extensive and is considered to be a long-term project. A request has been received from the Cardigan Agricultural Show committee to house the silver cups and other trophies in Ystafell Radley. The grand piano in the Great Hall has been tuned and is much improved.

Ysgol Uwchradd Aberteifi: The county council scrutiny committee's inspection has reported that extensive work is required on the fabric of the school.

Cardigan Swimming Pool: A number of volunteers is assisting with the administration of the charity and an additional number of swimming classes is now offered.

Cymdeithas Aberteifi Society: The annual general meeting will be held on 29 March at the Fisherman's Rest at 7.30pm.

13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Baneri / Bunting for Gŵyl Fawr Aberteifi.**

Cynigiwyd gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole bod y baneri yn cael eu gosod i groesawu Gŵyl Fawr Aberteifi pan y'i cynhelir yn Theatr Mwldan ym mis Gorffennaf. Gwirfoddolodd y Cyng. Richard Jones gynorthwyo gyda'r gwaith o'u gosod.

It was proposed by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Mark Cole that the bunting be placed to welcome Gŵyl Fawr Aberteifi to Theatr Mwldan in July. Cllr Richard Jones volunteered to assist with the placing of the bunting.

- (b) **Peintio'r siglenni / Painting of swings (children's play area).**
Awgrymwyd cysylltu â'r Cyng. Clive Davies am wybodaeth o gynllun y gwasanaeth profiannaeth.
It was agreed to contact Cllr Clive Davies to obtain information from the probation service scheme.
- (c) **Seremoni Sefydlu'r Maer 2017. Oherwydd etholiadau cynghorau sir a chymuned a gynhelir ar 4 Mai, cytunwyd bod cyfarfod blynyddol y cyngor i'w gynnal ar 23 Mai am 7.00yh. Y clerch i gadarnhau bod Neuadd y Dref ar gael i'r digwyddiad.**
Mayor Installation Ceremony 2017. Due to the local council elections to be held on 4 May, it was agreed to hold the annual general meeting of the council on the 23 May at 7.00pm. The clerk to confirm the availability of the Guildhall for the ceremony.
- (d) **Cytunwyd cynnal cyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion y cyngor ar nos Fawrth, 21 Mawrth am 5.00yh.**
It was agreed to hold the Grants sub-committee meeting on Tuesday, 21 March at 5.00pm.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.52yh

There being no further business to discuss, the Deputy Mayor closed the meeting at 7.52pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date